Cynllun Cyflawni Rhanbarthol ar gyfer Gwella Gofal Dementia, yn seiliedig ar yr Wyth Thema Allweddol o'r Ymgyrchoedd Gwrando gan Mel Sillett.

Cyflwyniad

Mae'r cynllun cyflawni hwn yn amlinellu argymhellion ar gyfer gwella gofal a chymorth dementia yn seiliedig ar adborth gan y chwe Ymgyrch Wrando ar draws Gogledd Cymru. Mae pob thema allweddol yn nodi camau penodol gyda'r nod o wella mynediad, cefnogaeth ac ansawdd gofal cyffredinol i unigolion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr di-dâl. Mae'r cynllun cyflawni hefyd wedi'i alinio â Safonau Llwybr Gofal Dementia Cymru Gyfan (2021).

Bydd y ddogfen hon yn ffurfio'r cynllun gwaith ar gyfer gwella gofal dementia rhanbarthol yng Ngogledd Cymru dros y 3 blynedd nesaf. Mae'n nodi'r 8 thema a nifer o argymhellion i'w hystyried gan bob partner. Bydd y gweithrediad yn dechrau ar 1 Ionawr 2026.

Bydd hyn yn gofyn:

- adolygu'r hyn sy'n bodoli eisoes,
- nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth,
- meysydd ar gyfer twf a gwella,
- cyfleoedd i ledaenu a thyfu,
- ystyried adnoddau a goblygiadau,
- ymgorffori mesur a thystiolaeth o welliant.

1. Mynediad at ofal a chymorth

Argymhellion:

a) **Rhaglenni Hyfforddi Dementia:** Gweithredu hyfforddiant gofal dementia priodol ar gyfer yr holl staff gofal/gwirfoddolwyr sy'n canolbwyntio ar arferion gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, tosturi, amynedd, a chyfathrebu effeithiol. (Pob Partner)

b) **24/7 - Llinell Gymorth Dementia Cymru:** Adolygu'r ddarpariaeth llinell gymorth bresennol i gael sicrwydd i weld ei bod yn diwallu anghenion pobl â dementia yng Ngogledd Cymru – hwn sy'n darparu cefnogaeth ac arweiniad ar unwaith i unigolion sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd. (BIPBC)

c) **Canolfannau Dementia a Hybiau Cymunedol**: Cwmpasu ac ehangu'r ddarpariaeth o 'ganolfannau' gofal a chymorth cymunedol, gan nodi'r gwahanol ffyrdd y darperir gofal, cymorth a gwybodaeth i unigolion sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd. Sicrhau bod canolfannau dementia ategol hefyd yn cael eu sefydlu mewn ardaloedd gwledig i wella mynediad a lleihau anghydraddoldebau, gan alluogi mwy o bobl i elwa o gymorth lleol waeth beth fo'u lleoliad.

Gellid cryfhau ehangu hybiau dementia trwy annog integreiddio â gwasanaethau presennol a chynigion lleol i gefnogi cynaliadwyedd a pharhad, osgoi dyblygu, ac adeiladu ar arferion gorau sefydledig. (Ymddiriedolaeth Gofalwyr)

d) **Ymwybyddiaeth Gymunedol ac Ymgyrchoedd Cyhoeddus:** Cynllunio ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau gofal sydd ar gael a chefnogaeth i unigolion sy'n byw gyda dementia. (Pob Partner)

2. Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Argymhellion:

a) **Cynlluniau Gofal Unigol:** Sicrhau bod gan bob unigolyn sydd angen cynllun gofal, gynllun gofal personol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Lle bo'n briodol, cynnwys teulu/gofalwyr di-dâl yn y broses cynllunio gofal. (BIPBC a'r Trydydd Sector)
b) **Mecanwaith Adborth:** Ystyried y mecanweithiau presennol i gael adborth gan unigolion a theuluoedd a nodi gwelliannau sydd eu hangen. (Pob Partner)

3. Cefnogaeth i Ofalwyr Di-dâl

Argymhellion:

a) **Gwasanaethau Cymorth i Ofalwyr Di-dâl:** Cwmpas ac ehangu gwasanaethau cymorth pwrpasol ar gyfer gofalwyr di-dâl, gan gynnwys hyfforddiant a chwnsela. (Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector)
b) **Mentrau Gofal Seibiant:** Cwmpas ac ehangu gwasanaethau gofal seibiant sy'n galluogi gofalwyr di-dâl amser i'w hunain wrth sicrhau bod eu hanwyliaid yn derbyn gofal o safon. (Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector)
c) **Darpariaeth Hyfforddiant:** Cynnig amrywiaeth o fecanweithiau dysgu i ofalwyr di-dâl ar dechnegau gofal dementia ac arferion hunan-ofal, gan sicrhau bod cyfleoedd ar-lein ac wyneb yn wyneb ar gael i weddu i wahanol anghenion a dewisiadau. (Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector)

4. Mynediad at Wasanaethau

Argymhellion:

a) **Cyfathrebu Clir:** Cwmpas a mireinio'r mecanweithiau gwybodaeth presennol i sicrhau eu bod yn esbonio'r gwasanaethau sydd ar gael a sut i gael mynediad atynt mewn ffordd glir a chryno (Pob Partner)
b) **Hyb Mynediad Canoledig:** Ymwreiddio'r llwybr cymorth cof fel un pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau dementia, gan ei gwneud yn haws i deuluoedd/gofalwyr di-dâl ac unigolion lywio ar draws sefydliadau a gwasanaethau. (Pob Partner)

5. Grwpiau a Gweithgareddau

Argymhellion:

a) **Ymgysylltu â'r Gymuned:** Cynnwys unigolion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr di-dâl wrth gynllunio gweithgareddau sy'n ymwneud ag iechyd a lles i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion eu cymuned. (Pob Partner)
b) **Atal:** Adnabod dulliau o ymgorffori gwybodaeth ac adnoddau 'atal' mewn gweithgareddau a digwyddiadau. (Pob Partner)

6. Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Dementia

Argymhellion:

a) **Ymgyrchoedd Ymwybyddiaeth:** Cyflwyno ymgyrchoedd i addysgu pobl yr effeithir arnynt gan ddementia a'u cymunedau, gan hyrwyddo agweddau cynhwysol. Cefnogi ac ehangu Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Ddementia trwy ddigwyddiadau wedi'u targedu, hyfforddiant, ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach (Pob Partner)
b) **Mentrau Dementia-Gyfeillgar:** Datblygu mentrau i wella mannau ffisegol (e.e., arwyddion, goleuo) i fod yn fwy cyfeillgar i ddementia. (Pob Partner)

7. Trafnidiaeth

Argymhellion:

a) **Partneriaethau gyda Darparwyr Trafnidiaeth:** Archwilio cyfleoedd cydweithredol gyda chwmnïau trafnidiaeth lleol. Ystyried sut i ddatblygu opsiynau trafnidiaeth sy'n briodol i ddementia ar gyfer unigolion sy'n byw gyda dementia. (Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr)
b) **Ymwybyddiaeth o Opsiynau Trafnidiaeth:** Darparu gwybodaeth glir am y gwasanaethau trafnidiaeth sydd ar gael drwy ganolbwynt adnoddau canolog. (Trydydd Sector)
c) **Cynlluniau Trafnidiaeth Gymunedol Gwirfoddol:** Datblygu gwasanaethau trafnidiaeth a reolir gan wirfoddolwyr i gynorthwyo unigolion sy'n byw gyda dementia i gael mynediad at apwyntiadau a gweithgareddau cymunedol. Gyda'r nod o gysylltu â chynlluniau trafnidiaeth gymunedol presennol a chynigion lleol, gall y dull hwn gefnogi cynaliadwyedd a pharhad, tra'n meithrin gwytnwch lleol a galluogi cymunedau i gefnogi ei gilydd. (Ymddiriedolaeth Gofalwyr)

Post a ariennir yn *hanbarthol*
Nodyn: mae cyllid Cysylltydd Dementia yn cael ei ddefnyddio ar gyfer swydd sy'n benodol i drafnidiaeth i weithio ar draws a chefnogi pob partner.

8. Yr Iaith Gymraeg

Argymhellion:

a) **Cynnal yr Iaith Gymraeg a Diwylliant:** Sicrhau bod iaith a diwylliant Cymraeg yn cael eu cynnal yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Neddf yr Iaith Gymraeg 'Mwy na Geiriau' 1993. Mae'r Ddeddf hon yn cydnabod y Gymraeg fel rhan hanfodol o'n treftadaeth ac yn tanlinellu ei phwysigrwydd mewn bywyd bob dydd, addysg a gwasanaethau cyhoeddus. (Pob Partner)
b) **Gwasanaethau dwyieithog**: Ymdrechu i sicrhau yn gyson bod gwybodaeth am yr holl wasanaethau gofal a chymorth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. (Pob Partner)
c) **Darpariaeth Gwasanaeth Dwyieithog:** Sicrhau bod yr holl wasanaethau gofal a chymorth yn cael eu cynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg. (Pob Partner)

Diweddglo

Rhagwelir y bydd pob partner yn cofleidio unrhyw argymhellion sy'n berthnasol i'w darpariaeth gwasanaeth eu hunain ac yn cydweithio â phartneriaid eraill i sicrhau bod yr amcanion ehangach yn cael eu cyflawni. Yn y modd hwn, gallwn barhau i wella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir yng Ngogledd Cymru i helpu pobl y mae dementia yn effeithio arnynt i fyw cystal â phosibl. Ar ben hynny, bydd y cynllun uchod yn cefnogi cyflwyno polisi ac arweiniad dementia Cymru.